# Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd

**Rydym yn rhoi pobl ifanc yn gyntaf!**

## Ardal

### Bethesda i Llanrug















# Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd

## Rydym yn rhoi pobl ifanc yn gyntaf!

**Mae gwaith ieuenctid yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac addysgol pobl ifanc.**

Rydym yn **gwrando** ar bobl ifanc, yn ymateb iddynt a'u grymuso i wneud y penderfyniadau gorau.
Gall gwaith ieuenctid ddigwydd **unrhyw le** — mewn canolfannau ieuenctid, clybiau, grwpiau cymunedol, ysgolion neu brosiectau. Gall ddigwydd mewn grwpiau neu un i un.
Mae pobl ifanc yn **dewis** cymryd rhan, nid oes rhaid iddynt ddefnyddio ein gwasanaeth os nad ydynt yn dymuno gwneud.

## Ein Pwrpas

**Rydym wedi ymrwymo i bobl ifanc Gwynedd.**



- Rydym yn agored i bob person ifanc yng Ngwynedd
- Rydym yn gweithio mewn Ysgolion Uwchradd a'r gymuned
- Rydym yn cynnig mathau gwahanol o weithgareddau a phrofiadau addysgol a hwyliog - yn ystod y dydd, gyda'r nos ac mewn cyfnodau preswyl
- Rydym yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc yn seiliedig ar beth maent ei eisiau a'i angen
- Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â phobl ifanc a'u cynnwys nhw wrth wneud penderfyniadau.
- Rydym yn cefnogi pobl ifanc i ddysgu sgiliau, ennill achrediadau, cael cymwysterau a gwobrau
- Rydym yn rhoi gwybodaeth, cefnogaeth a chyngor.
- Rydym yn hyrwyddo'r pum ffordd at les.

CONNECT BE ACTIVE TAKE NOTICE KEEP LEARNING Give

# Deillannau

## O ganlyniad i'n gwaith ieuenctid:

Mae pobl ifanc yn dysgu ac yn ennill sgiliau ar gyfer eu bywydau a'u dyfodol.

Mae pobl ifanc yn cael eu cefnogi ac yn cyrraedd eu potensial.

Mae pobl ifanc yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau dysgu creadigol a hwyliog.

Mae pobl ifanc yn adeiladu ar eu hyder, gwytnwch a lles.

Mae pobl ifanc yn uchelgeisiol ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau.

Mae pobl ifanc yn datblygu perthnasau iach a chryf.

Mae pobl ifanc yn cymryd rhan, mae ganddynt lais ac maent yn ddinasyddion gweithgar.

**Mae pobl ifanc wedi dweud wrthym:**

Rydw i eisiau i chi wrando arnaf a'm cynnwys i.

Rydw i eisiau i chi fy helpu gyda fy iechyd meddwl a sgiliau dysgu, fel y gallaf fod yn hapus, yn ddiogel, ac yn barod ar gyfer gwaith a bywyd.

Rydw i eisiau i chi fy helpu i gyfrannu at fy nghymuned.



**Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â phobl ifanc ac yn eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau.**

# Cwrdd â'ch Gweithiwr Ieuenctid → Ffion



Rydw i'n angerddol am gael bobl ifanc i drio profiadau newydd a chredu yn eu hunain a'u dyfodol.

Rydw i'n weithiwr ieuenctid proffesiynol cymwys ac rydw i wedi cofrestru gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg (EWC).

Rydw i'n gweithio mewn partneriaeth â phobl ifanc ac yn eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau.

Rydw i'n cynllunio, yn trefnu ac yn cyflwyno gweithgareddau a phrofiadau addysg sy'n cwrdd ag anghenion pobl ifanc ... a beth maen nhw eisiau ei wneud!

Rydw i'n parchu pobl ifanc, yn hytrach na'u beirniadu. Rydw i'n helpu pobl ifanc i gyrraedd eu llawn potensial.

Rydw i'n sicrhau bod gan bobl ifanc eu hawliau (UNCRC).

Rydw i'n cefnogi pobl ifanc ac yn gwneud dysgu yn hwyl!

Cysylltwch â ni:

FfionGWilliams@gwynedd.llyw.cymru

07909893715

______________

## Hoff bethau:

- Game of Thrones— mae'n wych!
- Gwyliau yn Lanzarote
- Pob math o fiwsig
- Rugbi — Cymru
- Dydd Llun i Wener - coffi, panad o de ar penwythnosau - llefrith a un siwgwr!

# Cyrsiau

**Cefnogi pobl ifanc i dyfu, crwydro a chasglu cymwysterau ar y ffordd.**




Mae manteision ychwanegol i'r pobl ifanc sy'n cael yr achrediadau a chymwysterau hyn:

- maent yn cyfrannu at bwyntiau perfformiad yr ysgol
- mae pobl ifanc yn dysgu drwy gael hwyl
- maent yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg
- maent yn debyg i TGAU
- maent yn werthfawr ar CVs a cheisiadau coleg neu swyddi.
- maent yn hyblyg gyda strwythur sy'n gweddu i anghenion pobl ifanc
- maent yn datblygu perthnasau rhwng ysgolion a chymunedau

Mae gennym nifer o unedau Cwricwlwm Craidd sy'n adlewyrchu ac yn ymateb i anghenion pobl ifanc, rhaglenni cenedlaethol a'r farchnad lafur. Edrychwch ar y rhestr o gyrsiau y gallwn Ffion eu cyflawni isod.




Mae nifer o fanteision i gyflawni Gwobr Dug Caeredin:

- mae'n mynd â dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- mae'n gwella canlyniadau bywyd drwy ddefnyddio dulliau cadarnhaol i oresgyn heriau a chyflawni nodau
- mae'n datblygu hyder, gwaith tîm, annibyniaeth a chyfrifoldeb
- mae'n datblygu hunan-gred, hunaniaeth a gwytnwch
- mae'n adnabod diddordebau a thalentau newydd
- mae pobl ifanc yn dysgu drwy gael hwyl
- mae'n datblygu perthnasau cymuned-ysgol
- mae'n wych ar CVs, ceisiadau coleg neu swyddi.

**Ystyried y cyfle**

CYRSIAU I YSBRYDOLI

## Pum Ffordd at Les

6 sesiwn x 50 munud | Grŵp.

Codi ymwybyddiaeth o'r Pum Ffordd at Les. Gellir addasu amser sesiynau i'r angen.

## Rheoli Tymer

Lefel 1 | 10 awr | HB31CY011 | Neu | Gallu cael eu rhedeg gyda grŵp neu unigolion.

Helpu pobl ifanc i ddeall emosiynau ac effeithiau tymer. Mae'n cynnig technegau i hunan-reoli a ffyrdd i reoli tymer.

Mae'r cwrs hwn yn cefnogi'r canllawiau yn Meddwl yn Gadarnhaol – iechyd a lles emosiynol mewn ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar, Llywodraeth Cymru 2010.

## Ymwybyddiaeth o Gamddefnyddio Sylweddau

Lefel Mynediad 3 | 30 awr | Neu | Gallu cynnig sesiwn un-tro i ystyried sefyllfa unigolyn neu gall grŵp ddilyn prosiect/cwrs byr.

Datblygu gwybodaeth pobl ifanc am gamddefnyddio sylweddau a lle i gael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth. Mae'r cwrs yn ymdrin â gwahanol fathau o gamddefnyddio ynghyd â'r effeithiau a'r problemau iechyd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio.

## Bwlio

Lefel Mynediad 3 | 10 awr | HB1E3CY029 | Neu

Ystyried effaith bwlio ac ymddygiad gormesol, ffyrdd o helpu dioddefwyr a lle i gael cymorth a chefnogaeth.

Lefel 1 | 10 awr | HB11CY064 | Neu

Mae'r cwrs hwn yn cwrdd â gofynion yn Parchu eraill: Trosolwg Gwrth-fwlio (2011) Llywodraeth Cymru. Deall bwlio, sut mae pobl yn bwlio eraill, effeithiau bwlio a lle i gael cefnogaeth a chymorth.

Lefel 2 | 30-40 awr | HB12CY057 AF41CY002

Mae'r grŵp yn gweithio gyda'i gilydd ar brosiect dull gwrth-fwlio ysgol gyfan.

## Creu CV wedi'i Deilwra

Lefel 1 | 30 awr | HC61CY015 | Neu

Sut i greu a siapio CV a llythyr/e-bost cefnogi wrth wneud cais am swydd. Mae'n cynnwys fformatau CV, gan greu a theilwra ar gyfer sector wedi'i dargedu.

## Atal Cam-fanteisio'n rhywiol ar blant (CSE)

Isafswm o 2 sesiwn x 45 munud | Oed 14+

Rhaglen a ddatblygwyd gan bobl ifanc fel rhan o waith gan Lywodraeth Cymru a Barnardo's Cymru.

## Datblygu Sgiliau

Lefel 1 | 30 awr | HB11CY074 | Neu

Cwrs Celfyddydau er Lles sy'n helpu pobl ifanc i ddeall sgiliau personol, cynnydd personol a'r canlyniadau cadarnhaol sy'n dod o ddatblygu sgiliau newydd.

## Gwneud Penderfyniadau

Lefel 1 | AF21CY003 | Neu

Rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth am dechnegau gwneud penderfyniadau, ynghyd â phrosesau a phroblemau posib.

## Delio â straen (arholiadau)

Neu

Cael gwybodaeth a sgiliau am reoli straen

CYRSIAU I YSBRYDOLI

## Deallusrwydd Emosiynol
Lefel 1 | 20 awr | HB11CY089 | Neu

Deall gwahanol emosiynau, deallusrwydd emosiynol a ffyrdd o wella eu deallusrwydd emosiynol.

## Prosiect Amgylchedd
Lefel Mynediad 3 | 20 awr | QA9E3CY005

Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ofal amgylcheddol gyda chyfle i ddatblygu eu prosiect amgylcheddol eu hunain.

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Lefel 1 | 10 awr | GA71CY004 | Neu

Datblygu gwybodaeth ynghylch materion amrywiaeth a chydraddoldeb drwy ddeall agweddau ar gydraddoldeb, amrywiaeth a stereoteipio.

## Archwilio a Datblygu Syniad Crefft
Lefel 1 | JA21CY022

Datblygu'r sgiliau i archwilio gwaith creadigol eraill a chefnogaeth i ddatblygu eu syniadau crefft eu hunain a'u briff prosiect eu hunain.

## Archwilio Mentergarwch
Lefel 1 | 20 awr | AE81CY003

Archwilio nodweddion entrepreneur llwyddiannus. Mae'r cwrs hwn ar gyfer grwpiau gyda phrosiect menter.

## Ffyrdd Iach o Fyw
Lefel 1 | 10 awr | PA91CY015 | Neu

Dealltwriaeth o beth sy'n cyfrannu at ffordd iach o fyw, ynghyd â'r termau, cydrannau ac effeithiau ffordd iach o fyw.

## Cyllidebu a Chynllunio Arian
Lefel 1 | 10 awr | HD41CY023 | Neu

Deall manteision cynllunio, defnyddio cyllideb a rheoli gwariant personol. Hefyd, deall dyled a ffynonellau cefnogaeth.

## Gadael Cartref
Lefel 1 | 10 awr

Cwrs ymyrraeth gynnar i leihau a chodi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd ymysg pobl ifanc. Dealltwriaeth o fanteision ac anfanteision gadael cartref teuluol, y dewis sydd ar gael o ran llety, a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â rhedeg eu cartref eu hunain.

## Rheoli Amser
Lefel 1 | 20 awr | AF21CY005 | Neu

Pam bod cadw amser yn bwysig i reoli eu hamser yn effeithiol ac asesu eu sgiliau rheoli amser eu hunain.

## Ysmygu
Neu

Gall ymyrraeth gynnwys sesiynau byr ataliol neu rai wedi'u teilwra i anghenion grwpiau.

## Paratoi ar gyfer Gwaith

Lefel 1 · 30 awr · Neu

Adolygu eu sgiliau, gwerthoedd a phrofiadau wrth chwilio am gyfleoedd gwaith neu goleg. Cysylltu sgiliau gyda gofynion, cwblhau cynlluniau personol a ffurflenni cais. Mae'r cwrs hefyd yn paratoi pobl ifanc ar gyfer prosesau cyfweld a sut i gyflwyno eu hunain.

## Cynllunio a Pharatoi ar gyfer Profiad Gwaith

Lefel 1 · 10 awr · HC41CY044 · Neu

Mae pobl ifanc yn dysgu i adnabod lleoliadau, cysylltu â chyflogwyr a dilyn canllawiau. Maent yn adnabod cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau o gynlluniau gweithredu ac yn dilyn gofynion Iechyd a Diogelwch lleoliad gwaith.

## Sgiliau Gwytnwch

Lefel 1 · 10 awr · HB11CY061 · Neu

Datblygu dealltwriaeth o wytnwch a'i effaith. Sut i ddatblygu fel unigolyn yn ogystal â datblygu eu sgiliau gwytnwch.

## Gweithio mewn Tîm

Lefel 1 · 20 awr · AF41CY002

Gweithio fel tîm i gyfrannu at amcanion y tîm a'u cyflawni. Dysgu sut i gyfrannu, gweithio gydag eraill ac adnabod perfformiad tîm effeithiol.

## Agweddau Cymdeithasol a Chyfreithiol Diogelwch Personol

Lefel Mynediad 3 · 10 awr · HB1E3CY34 · Neu

Mae'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau (alcohol, cyffuriau, perthnasau a cham-fanteisio rhywiol, gyrru) fel bod pobl ifanc yn cael dealltwriaeth o beryglon, canlyniadau a ffyrdd o gadw'n ddiogel.

Lefel 1 · 10 awr · HB11CY075 · Neu

Mae Lefel 1 ar gael; fodd bynnag, bydd angen trafod hyn gyda Swyddfa SchoolBeat fel rhan o Raglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan.

## Atal Troseddu a Chadw'n Ddiogel

Lefel Mynediad 3 · 10 awr · QH5E3CY002 · Neu

Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gyfraith, canlyniadau collfarn droseddol a sut i gadw'n ddiogel (mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, y rhyngrwyd a cham-drin domestig).

Lefel 1 · 10 awr · QH51CY005 · Neu

Mae Lefel 1 ar gael; fodd bynnag, bydd angen trafod hyn gyda Swyddfa SchoolBeat fel rhan o Raglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan.

## Iechyd a Lles Meddyliol

Lefel Mynediad 3 · 20 awr · HJ1E3CY009 · Neu

Codi ymwybyddiaeth o les emosiynol ac iechyd meddwl; deall y cysyniad o iechyd meddwl a lles meddyliol; sut mae gwahanol ffactorau yn effeithio ar iechyd a lles meddyliol; effeithiau stereoteipio a ble i gael cefnogaeth a chymorth.

Lefel Mynediad 3 · 20 awr · Neu

Deall y cysyniad o iechyd a lles meddyliol, sut mae gwahanol ffactorau'n effeithio ar iechyd a lles meddyliol a lle i gael cefnogaeth a chymorth.

# Gwobrwyau



## Darganfyddwch le gwyllt

... lle gwyllt drwy weithgareddau cyswllt natur ac ystyried beth sy'n eu gwneud yn wyllt, pa mor wyllt ydyn nhw a sut mae'n gwneud i chi deimlo. A allai fod yn fwy gwyllt?

Edrychwch ar le gwyllt drwy lens ei briodweddau (e.e. prosesau naturiol, nodweddion gweledol, seinwedd, dylanwad dynol, fflora a ffawna, cysylltedd / pellenigrwydd).

## Gwnewch rywbeth i'w warchod

... dyma'r amser i weithredu er mwyn amddiffyn neu adfer eich lle gwyllt. Gallwch wneud gweithgareddau cadwraeth ymarferol, codi ymwybyddiaeth neu weithredu mewn ffyrdd eraill i helpu amddiffyn llefydd gwyllt.

Ystyriwch hir oes eich gweithrediadau - sut allwch chi gynnal y manteision y tu hwnt i'ch Gweithgareddau Gwobrwyo? Drwy ymgysylltu yn yr Her Gadwraeth, byddwch yn helpu'r JohnMuirTrust i ofalu am lefydd gwyllt ar draws y DU gyfan.

## Archwiliwch y lle

.... Eich lle gwyllt, dyfnhewch eich gwybodaeth a'i ddeall yn well. Mwynhewch amrywiaeth o weithgareddau gyda synnwyr o antur a chwilfrydedd. Dysgwch fwy am eich lle gwyllt - sut mae'n gwneud lles i natur, sut mae'n gwneud lles i bobl, beth all fygwth ei gadw'n wyllt? Ystyriwch beth allwch chi ei wneud i helpu i'w amddiffyn neu adfer.

## Rhannwch eich profiadau

Myfyriwch ar eich profiadau, sut mae eich gweithgareddau wedi gwneud i chi deimlo, beth yr ydych wedi'i ddysgu a'i gyflawni.

Ystyriwch pa lefydd gwyllt sy'n bwysig a sut yr ydych wedi helpu eich lle dewisol; yn eich barn chi, pa effaith y mae hyn wedi'i gael ar lefydd gwyllt yn gyffredinol?

**Mae Gweithwyr Ieuenctid yn gweithio gyda'r Wobr i feithrin ymgysylltiad â phobl ifanc i gysylltu, mwynhau a gofalu am leoedd gwyllt. Mae'r Wobr yn gafaelgar, nad yw'n gystadleuol ac yn annog pobl ifanc i fod yn gynhwysol yn eu cymunedau.**

# Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb

## Cefnogi pobl ifanc

### Cerdyn-C

Mae'r cynllun Cerdyn-C yn wasanaeth cyfrinachol sydd hefyd yn cynnig gwybodaeth a chyngor ynghylch iechyd rhywiol a pherthnasau iach i bobl ifanc



Hefyd, mae Gweithwyr Ieuenctid yn gallu cynnig amrywiaeth o sesiynau Perthnasau Iach.



Mae Gweithwyr Ieuenctid wedi'u hyfforddi i gynnig y wasanaeth



# Cysylltwch :



FfionGWilliams@gwynedd.llyw.cymru

07909893715

# Ffion

Ffion Williams - Gweithiwr Ieuenctid Youth Worker